

# Coflyfr y Cod Ymddygiad

Rhifyn 6 Hydref 2015

## Tu fewn

Cwflwyniad

1

## Crynodebau Achosion

Dim tystiolaeth o dor-amod

3

Nid oes angen gweithredu

6

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

7

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru

8

Mwy o Wybodaeth

9

## Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan driwlynlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

(Parheir trosodd)

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwyl hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawriad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Ebrill i Gorffennaf 2015, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae gwrandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

## Crynodebau Achosion

### Dim tystiolaeth o dor-amod

#### **Cyngor Sir Penfro – Atebolrwydd a bod yn agored**

#### **Cyfeirnod achos 201404748 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2015**

Honnwyd fod aelod o Gyngor Sir Penfro ("y Cynghorydd"), wedi defnyddio ei swydd mewn modd amhriodol i ddylanwadu ar ac i danseilio swyddogaethau Pwyllgor Ymchwiliadau Disgyblaeth Trawsbleidiol. Yn benodol honnwyd ei fod wedi "pwysu" ac "ystrywio" i gymell aelod arall i beidio â chydweithredu â'r Pwyllgor hwn.

Agorodd yr Ombwdsmon ymchwiliad i ganfod a oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi gweithredu'n groes i baragraffau 6(1)(a) a 7(a) y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig. Cafwyd tystiolaeth gan Gyngor Sir Penfro a nifer o aelodau etholedig. Yn ystod yr ymchwiliad daeth tystiolaeth i'r amlwg a oedd yn awgrymu tor-amod pellach gan y Cynghorydd. Penderfynodd yr Ombwdsmon ymestyn cwmpas yr ymchwiliad gwreiddiol i ganfod a oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd hefyd wedi defnyddio ei swydd i ddylanwadu'n amhriodol ar aelod etholedig arall. Cafodd y Cynghorydd ei gyfweild yn gysylltiedig â'r ddau fater a gwadodd ei fod wedi ceisio dylanwadu mewn unrhyw fodd ar y naill aelod na'r llall.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd y dystiolaeth uniongyrchol a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad yn ddigon i gadarnhau'r honiad a wnaethpwyd, a daeth i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth o dor-amod yn achos yr holl faterion yr ymchwiliwyd iddynt.

#### **Cyngor Sir Fynwy – Datgelu a chofrestru buddiannau**

#### **Cyfeirnod achos 201405619 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2015**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Sir Mynwy a Chyngor Tref y Fenni ("y Cyngor Tref") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau mewn cyfarfod Cynllunio o Gyngor y Dref ar 8 Hydref 2014. Honnwyd nad oedd yr aelod wedi datgan budd yn y mater fel cyn fasnachwr siop ar y stryd fawr pan oedd yn ystyried eitem yn ymwneud â chais am ganiatâd i weithredu fel masnachwr stryd. Honnwyd hefyd fod yr aelod wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i ddylanwadu ar farn aelodau'r cyfarfod Cynllunio ar rinweddau'r caniatâd i'r masnachwr stryd. Dywedodd yr achwynydd fod gweithredoedd yr aelod yn wahaniaethol.

Ni chanfu'r ymchwiliad ddim tystiolaeth fod gan yr aelod a gyhuddwyd fudd yn y mater dan sylw. Yn niffyg unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gan yr aelod a gyhuddwyd, neu rywun â chysylltiad agos ag ef, unrhyw gysylltiadau penodol â'r ymgeisydd a / neu gysylltiad â'r cais, nid oedd yr Ombwdsmon yn fodlon y byddai unrhyw unigolyn gwrthrychol yn ystyried yn rhesymol y byddai galwedigaeth flaenorol yr aelod yn ddigon arwyddocaol i allu ei ystyried fel budd yn y mater. Nid oedd tystiolaeth ychwaith bod yr aelod wedi siarad ar rinweddau'r cais yn y cyfarfod Cynllunio. Ar ôl ystyried yr wybodaeth oedd ar gael, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu bod yr aelod wedi torri'r Cod.

## **Cyngor Sir Fynwy**

### **Rhif Achos: 201405619/201405638 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2015**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Sir Mynwy a Chyngor Tref y Fenni ("y Cyngor Tref") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau mewn cyfarfod Cynllunio o Gyngor y Dref ar 8 Hydref 2014. Honnwyd nad oedd yr aelod wedi datgan budd yn y mater fel cyn fasnachwr siop ar y stryd fawr pan oedd yn ystyried eitem yn ymwneud â chais am ganiatâd i weithredu fel masnachwr stryd. Honnwyd hefyd fod yr aelod wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i ddylanwadu ar farn aelodau'r cyfarfod Cynllunio ar rinweddau'r caniatâd i'r masnachwr stryd. Dywedodd yr achwynydd fod gweithredoedd yr aelod yn wahaniaethol.

Ni chanfu'r ymchwiliad ddim tystiolaeth fod gan yr aelod a gyhuddwyd fudd yn y mater dan sylw. Yn niffyg unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gan yr aelod a gyhuddwyd, neu rywun â chysylltiad agos ag ef, unrhyw gysylltiadau penodol â'r ymgeisydd a / neu gysylltiad â'r cais, nid oedd yr Ombwdsmon yn fodlon y byddai unrhyw unigolyn gwrthrychol yn ystyried yn rhesymol y byddai galwedigaeth flaenorol yr aelod yn ddigon arwyddocaol i allu ei ystyried fel budd yn y mater. Nid oedd tystiolaeth ychwaith bod yr aelod wedi siarad ar rinweddau'r cais yn y cyfarfod Cynllunio. Ar ôl ystyried yr wybodaeth oedd ar gael, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu bod yr aelod wedi torri'r Cod.

## **Cyngor Sir Caerfyrddin**

### **Cyfeirnod achos 201500393/201500441 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2015**

Cwynodd aelod o'r cyhoedd am aelod o Gyngor Gwledig Llanelli ("y Cyngor"). Dywedodd fod y Cyngorydd wedi siarad â hi mewn ffordd anfoesgar ac ymosodol mewn trafodaeth y tu allan i Neuadd y Trallwm ar 9 Ebrill. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i ganfod a oedd ymddygiad honedig y Cyngorydd yn golygu ei fod wedi dwyn anfri ar swydd Cyngorydd neu'r Cyngor ac a ellid ei ystyried fel ymddygiad amharchus neu fwlio.

Fel rhan o'r ymchwiliad, holwyd un o swyddogion y Cyngor a oedd wedi digwydd clywed peth o'r drafodaeth. Er bod y swyddog wedi dweud nad oedd natur y drafodaeth yn gyfeillgar, ni chlywodd y Cyngorydd yn siarad yn amharchus ac nad oedd ei ymddygiad yn achos pryder.

Cafwyd fersiynau gwahanol o'r drafodaeth gan y Cyngorydd a'r aelod o'r cyhoedd. Cafwyd cyngor annibynnol gan swyddog o'r Cyngor ac oedd yn gweld dim yn amhriodol yn ymddygiad y Cyngorydd. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd y cod wedi cael ei dorri.

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Datgelu a chofrestru buddiannau Cyfeirnod achos 201408430 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Medi 2015**

Cafwyd cwyn am aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cynghorydd") am iddi beidio â datgan budd personol a rhagfarnus mewn ceisiadau cynllunio a wnaethpwyd gan gyfarwyddwr cwmni. Ar 14 Ebrill 2011, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Cynllunio (DCC), nid oedd y Cynghorydd wedi datgan budd personol a rhagfarnus mewn cais cynllunio gan y cwmni. Ar 18 Hydref 2012, cafodd cais gan yr un ymgeisydd ei ystyried. Dywedodd y Cynghorydd fod yr ymgeisydd yn gyfaill i'r teulu, bod ganddi fudd rhagfarnus a gadawodd y cyfarfod. Ar 21 Mawrth 2013, gwnaethpwyd cais cynllunio arall gan yr un ymgeisydd. Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn adnabod mam yr ymgeisydd, ond ni adawodd y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd nad oedd, yn y cyfarfod ar 14 Ebrill 2011 wedi adnabod yr ymgeisydd a'i bod wedi gwrthwynebu'r cais. Dywedodd ei bod yn y cyfarfod ar 18 Hydref 2012, wedi gwneud datganiad personol a rhagfarnus, gan ei bod wedi gwrthwynebu'r cais yn gyhoeddus ac wedi gadael y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd fod ei budd ar 21 Mawrth 2013 wedi bod yn bersonol ond nid yn rhagfarnus. Nid oedd wedi pleidleisio gan fod y cais wedi'i ohirio. Dywedodd y Cynghorydd ei bod wedi gorddatgan ei budd personol gan ei bod yn adnabod mam yr ymgeisydd a arferai fod yn ysgrifenyddes yn ysgol ei phant, a'i bod hwythau bellach yn oedolion. Nid oedd wedi ceisio bwrw ymlaen ag unrhyw gais gan y cyfarwyddwr.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth nad oedd y Cynghorydd wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn unol ag Adran S69 (4) (a).

## **Nid oes angen gweithredu**

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## **Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau**

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

### **Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth – Datgelu a chofrestru buddiannau Cyfeirnod achos 201305114 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2015**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Llywodraeth Leol yn ystod cyfarfodydd Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Alltwalis Statkraft (y cafodd ei henwebu i eistedd arno yn sgil bod yn gynghorydd cymuned) a'r Cyngor. Honnwyd y dylai'r Cynghorydd fod wedi datgan buddiant a gadael yr ystafell pan oedd eitemau'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â chwmni adeiladu ei gŵr a chais i adeiladu fferm wynt drws nesaf i dir roedd hi'n berchen arno.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio i weld a oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ai peidio. Cafwyd tystiolaeth gan y Cyngor, Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Alltwalis Statkraft a phobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Ar ôl pwysu a mesur, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y dystiolaeth yn awgrymu, er bod gan y Cynghorydd fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ym musnes y Cyngor yn ymwneud â chwmni adeiladu ei gŵr, ei bod wedi datgan buddiant yn briodol a'i bod wedi gadael yr ystafell ar yr adegau perthnasol. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd yn rhaid i'r Cynghorydd ddatgan buddiant personol mewn nifer o gyfarfodydd y Cyngor. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y Cynghorydd wedi methu â datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ac wedi peidio â gadael yr ystafell pan oedd trafodaeth a phleidlais ynghylch materion yn ymwneud â'r fferm wynt yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Ionawr 2012.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon y mater at Banel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys y dylid gwahardd y Cynghorydd o'r Cyngor am gyfnod o dri mis.

Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru i'w weld [yma](#).



## Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
**1 Ffordd yr Hen Gae**  
**Pencoed**  
**CF35 5LJ**

**Ffôn**                **01656 644200**  
**Ffacs**                **01656 641199**  
**e-bost**                **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter:** [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan [www.ombwdsmon-cymru.org.uk](http://www.ombwdsmon-cymru.org.uk)